# Stori'r Geni



## Stori Joseff

# Stori'r Geni

## Stori Joseff

### Gwybodaeth Gefndirol

- Saer oedd Joseff oedd yn byw yn Nasareth (ryw 70 milltir o Bethlehem).
- Gwyddai Joseff nad ei blentyn e oedd babi Mair. Yn niwylliant Joseff byddai wedi bod yn gywilyddus cael plentyn tu allan i briodas. Byddai beichiogrwydd Mair wedi bod yn anodd iawn i Joseff a'i deulu ddeall.
- Helpodd Duw Joseff drwy anfon angel gyda negeseuon gan Dduw. Gwrandawodd Joseff yn ofalus a gwnaeth beth ddwedodd yr angel wrtho i'w wneud.
- Arhosodd Joseff gyda Mair a dod yn dad daearol Iesu.
- Teithiodd Joseff a Mair i Bethlehem (o ble roedd Joseff yn hanu) oherwydd bod yna gyfrifiad Rhufeinig.

### Yn y Beibl

- Gelli ddarllen am hanes angel yn ymweld â Joseff  yn y Beibl, yn llyfr Mathew, o bennod 1, adnod 18 i adnod 24.
- Gelli ddarllen am rôl Joseff yn hanes y geni yn y Beibl, yn llyfr Luc, pennod 2, adnod 1 i 20.  Hefyd yn llyfr Mathew, o bennod 1 adnod 18 i bennod 2, adnod 13.

### Teimladau ac Emosiynau

- Byddai Joseff wedi teimlo'n ddryslyd pan glywodd y newyddion fod Mair yn disgwyl babi cyn iddyn nhw briodi.
- Byddai ymweliad yr angel wedi gadael Joseff yn teimlo'n ofnus ac yn llawn rhyfeddod.
- Byddai wedi bod wrth ei fodd pan anwyd Iesu.
- Byddai ymweliadau annisgwyl y bugeiliaid a'r gwŷr doeth wedi peri syndod i Joseff.
- Byddai Joseff wedi teimlo dan bwysau mawr gyda'r cyfrifoldeb o ofalu am Mair ac Iesu, yn enwedig o wybod fod y Brenin Herod eisiau lladd Iesu.

### Gweithgaredd gydag oedolyn

- Tynna lun o "wynebau emosiwn" i ddangos sut newidiodd emosiwn Joseff drwy'r stori.
- Yn sydyn roedd Joseff gyda lot fawr o gyfrifoldeb: roedd i ddod yn dad, roedd arno angen credu a thrystio Duw, roedd ganddo daith hir i'w threfnu, roedd rhaid iddo fod yn gefn i Mair, yn arbennig yn ystod y cyfnod o feichiogrwydd, ac roedd ganddo'r cyfrifoldeb o fod yn dad daearol Iesu. Trystiodd Joseff yn Nuw a gwneud popeth a ofynnwyd ganddo. Wnaeth e ddim cwyno ei bod hi'n rhy anodd ac fe wynebodd y sialens.

### Myfyrio

- Oes yna bethau anodd mae disgwyl i ti eu gwneud, neu gyfrifoldebau sydd gennyt?
- Sut wyt ti'n ymateb pan maen rhaid i ti wneud rhywbeth anodd neu flinedig?